Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Llan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Chwitffordd
**Chwitffordd**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 9AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Y Llan yn Chwitffordd, Sir y Fflint. Mae bron yr holl ddisgyblion yn byw yn lleol, ac mae ychydig iawn yn dod o'r ardal gyfagos. Daw'r disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae cartrefi dan berchenogaeth breifat a chartrefi rhent yn yr ardal. Mae hawl gan ryw 8% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol, ond mae wedi cynyddu'n araf dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae 112 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 12 yn y dosbarth meithrin. Addysgir y pedwar dosbarth gan dri athro amser llawn a phedwar athro rhan-amser. Cânt eu cynorthwyo gan dri aelod o staff cymorth dysgu amser llawn, a phedwar rhan-amser. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r dosbarth meithrin yn dair oed.

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 10% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ond nid oes datganiad o angen addysgol arbennig gan unrhyw ddisgybl. Saesneg yw prif iaith gartref y rhan fwyaf o'r disgyblion. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg fel eu mamiaith ar hyn o bryd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig neu sy'n cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Ni chafodd unrhyw ddisgyblion eu gwahardd o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2005.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Y Llan yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,234 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £13,748 a'r lleiafswm yw £2,758. Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Y Llan yn y 35ain safle o'r 73 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda;
- mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda iawn â'i gilydd i ddarparu profiadau dysgu diddorol i'r disgyblion;
- mae safonau lles uchel gan y disgyblion; ac
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn un o gryfderau'r ysgol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae ffocws clir gan yr arweinwyr a'r rheolwyr ar gyfer gwella'r ysgol;
- mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol;
- mae blaenoriaeth addas yn cael ei rhoi i fentrau gwella;
- mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau hanes llwyddiannus o wneud gwelliannau; ac
- mae ystod dda o bartneriaethau sy'n gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llawysgrifen y disgyblion a chyflwyniad eu gwaith

A2 Ar gyfer yr holl weithgareddau, gosod meini prawf llwyddo clir sy'n herio pob disgybl yn gyson

A3 Rhoi adborth manylach i'r disgyblion fel eu bod yn gwybod sut i wella eu gwaith

A4 Bod yn fwy trwyadl wrth fonitro effaith mentrau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â'r medrau a ddisgwylir gan ddisgyblion o oed tebyg. Mewn gwersi a thros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion adio a thynnu yn gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, dyblu neu haneru rhifau yn gywir, adnabod ffurfiau gwastad a solet cyffredin neu gwblhau siart bar yn gywir. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau mathemategol syml mewn meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn paentio ac yn gweu patrymau, yn didoli, yn cydweddu ac yn cymharu grwpiau o anifeiliaid ac yn gwneud pictogramau o'u hoff anifail anwes.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gwersi mathemateg yn dda, ac mae disgyblion mwy galluog yn cyflawni'n uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer problemau rhif sy'n cynyddu o ran anhawster. Mae dealltwriaeth gadarn gan lawer ohonynt o reolau tebygolrwydd a chymesuredd cylchdro. Gall disgyblion mwy galluog ddefnyddio canrannau yn dda a dehongli gwybodaeth yn briodol o graffiau llinell. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflwyno'n gwaith yn daclus, ac mewn ychydig o achosion, mae hyn yn arwain at gamgymeriadau yn eu dealltwriaeth o werth lle neu gofnodi data. Nid yw disgyblion mwy galluog yn mynd ati'n gyson i gymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar yr un lefel mewn pynciau eraill, er enghraifft, mewn gwyddoniaeth.

Mae safonau siarad a gwrando uchel gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblion yn nosbarth y blynyddoedd cynnar yn gwrando'n fanwl ar staff, yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau ac yn canu rhigymau a chaneuon yn llawen ac yn gywir yn Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn siarad yn glir ac yn hyderus ag oedolion a phlant eraill. Mae bron yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn talu sylw mewn gwersi. Maent yn siarad yn dda wrth roi cyflwyniadau ac yn trafod testunau a syniadau yn aeddfed.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau llyfrau ac yn gwneud cynnydd da gyda'u darllen. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o gliwiau lluniau a thestun yn dda i'w helpu i ddeall beth maent yn ei ddarllen. Gwnant ddefnydd priodol o atalnodi wrth ddarllen ar goedd ac maent yn siarad am lyfrau yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn dda o ystyried eu hoed a'u gallu. Maent yn siarad yn hyderus am storïau ac awduron y maent yn eu mwynhau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r hyn maent yn ei wybod am lyfr i drafod sut gallai cymeriad mewn stori ymddwyn neu beth allai ddigwydd nesaf. Erbyn

diwedd blwyddyn 6, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion sgimio testun yn gyflym er mwyn ei ddeall. Mae lleiafrif yn gallu defnyddio'r dudalen fynegai mewn cyfeirlyfr yn effeithiol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae ymwybyddiaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion iau o enwau a seiniau llythrennau, ac maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i ysgrifennu geiriau anghyfarwydd a datblygu'u sillafu bob dydd. Maent yn ysgrifennu'n daclus ac at amryw o ddibenion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifenwyr galluog. Mae ychydig iawn ohonynt yn ysgrifennu'n dda iawn gan ddefnyddio geirfa bwerus a llawn mynegiant. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau hir ac at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd yn llwyddiannus. Mae ganddynt afael da ar rannau ymadrodd ac maent yn ysgrifennu'n glir ac yn llawn dychymyg. Heblaw am mewn Saesneg, nid yw disgyblion bob amser yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn ddigon taclus.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Yn benodol, maent yn gwneud defnydd medrus o 'setiau llaw pleidleisio' mewn gwersi i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bynciau gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgu yn gwneud cynnydd da, yn enwedig yn eu darllen. Mae disgyblion mwy galluog yn cyflawni'n dda yn gyffredinol.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg. Gwnânt gynnydd da iawn yn y blynyddoedd cynnar, ac yn gyffredinol, mae eu defnydd o'r Gymraeg yn datblygu'n dda. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dangos hyder cynyddol gyda'u hysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cynnal sgyrsiau syml ac yn ateb cwestiynau uniongyrchol yn briodol. Maent yn darllen yn glir gyda dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei ddarllen. Nid yw eu medrau ynganu wedi'u datblygu gystal, fodd bynnag.

Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion, mae'n rhaid ymdrin yn ofalus â chanlyniadau asesiadau disgyblion gan y gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion tebyg (h.y. ysgolion y mae eu disgyblion yn cael canran debyg o brydau ysgol am ddim), cyflawnodd disgyblion yn dda yn eu datblygiad Saesneg a'u datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Roedd deilliannau ar gyfer mathemateg ac ar gyfer disgyblion mwy galluog yn yr hanner isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. O gymharu â'r teulu o ysgolion, fe wnaeth disgyblion berfformio ar y lefel ddisgwyliedig ac eithrio yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol, lle'r oeddent yn y safle uchaf yn y teulu.

Roedd canlyniadau ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 yn debyg i ganlyniadau ysgolion tebyg, ac mae'r canlyniadau yn eu rhoi tua'r canol yn y teulu o ysgolion. Yn y ddwy flynedd flaenorol, roedd yr ysgol wedi cyflawni deilliannau uwch yn gyson nag ysgolion tebyg ac ysgolion eraill yn ei theulu. Ar gyfer y lefel 5 uwch, mae canlyniadau'r ysgol yn codi ac ychydig yn uwch na'r teulu o ysgolion.

**Lles: Da**

Mae agwedd dda at gadw'n iach gan lawer o ddisgyblion. Maent yn mwynhau gweithgareddau egnïol yn rheolaidd, gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau awyr agored mewn canolfan breswyl yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn ystyriol o'i gilydd ac oedolion. Mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol a'u cyflawniadau, yn mwynhau eu gwaith ac yn canolbwyntio'n dda yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau neu grwpiau mewn llawer o wersi. Mae staff yn delio'n ddi-oed â digwyddiadau achlysurol iawn o ymddygiad gwael.

Mae cyngor yr ysgol yn gweithio'n dda. Mae'n cymryd rhan yn llwyddiannus mewn prosiectau i wella bywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft, trwy gynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion amser egwyl, a phrynu llyfrau emynau i Eglwys Chwitffordd. Mae aelodau'r cyngor yn cyflawni'u dyletswyddau yn gyfrifol ac yn aeddfed, ac maent yn rhoi gwybodaeth dda i ddisgyblion eraill. Mae disgyblion wedi bod yn ymwneud yn llwyddiannus â phlannu bylbiau yn y gymuned a mynychu gwasanaethau yn yr eglwys.

Mae presenoldeb yn gyson uchel ar ryw 96%, ac mae hyn yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol o eang a chytbwys sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth bresennol y disgyblion. Mae staff yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu effeithiol sydd i raddau helaeth yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Gwna'r ysgol ddefnydd da o grwpiau bach i gynorthwyo disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu. Mae niferoedd da yn mynd i'r gweithgareddau allgyrsiol, ac maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu llythrennedd a medrau TGCh disgyblion. Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen, ond nid yw'n cyfateb yn gyson i fedrau mathemategol disgyblion mwy galluog yng nghyfnod allweddol 2.

Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn weithredol ac yn effeithiol. Maent yn annog disgyblion i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn elwa ar ymweliadau ag Eglwys Chwitffordd, Neuadd Mostyn a Chastell y Waun, a thrwy astudio artistiaid Cymru a straeon gwerin.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn dda iawn. Mae'n annog yn gryf cyfranogiad gan y disgyblion mewn arbed ynni ac adfywio, ac ailgylchu. Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddysgu'n effeithiol am y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae staff yn adnabod eu disgyblion a'u hanghenion yn dda. Defnyddiant ystod effeithiol o dechnegau holi ac maent yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol i gymell ac ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae athrawon ac oedolion eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus iawn. Mae staff cymorth yn cyfrannu'n fawr at ansawdd y ddarpariaeth a'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth eang o adnoddau i wella profiadau dysgu disgyblion yn dda. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid oes syniad ddigon clir gan yr athrawon o'r hyn maent eisiau i ddisgyblion ei gyflawni neu nid ydynt yn cynnig y lefelau her priodol i ddisgyblion mwy galluog.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o sylwadau ysgrifenedig adeiladol yn cael eu rhoi i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith, ond nid yw hyn yn wir am bob aelod o staff.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae athrawon ac oedolion eraill yn cynllunio gwersi'n briodol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion ac yn darparu help effeithiol i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn gywir ac yn cael eu safoni'n briodol. Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae darpariaeth dda i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ac i hyrwyddo'u hiechyd a'u lles yn llwyddiannus. Cynigia'r staff gyfleoedd da i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen gytbwys o gymorth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion drwy ymweliadau gan y ficer a'r heddlu, er enghraifft.

Mae staff yn darparu cymorth da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan eu galluogi i wneud cynnydd da. Mae gweithdrefnau effeithiol wedi'u sefydlu'n dda i gynorthwyo disgyblion â datganiad o angen addysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glòs a chroesawgar lle mae pawb yn dangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd. Mae'r awyrgylch tawel yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gymdeithasol.

Mae adeiladau a safle'r ysgol yn ddiogel, yn saff ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Maent yn darparu amgylchedd dysgu lliwgar, croesawgar ac ysgogol i ddisgyblion. Mae'r ardaloedd awyr agored, gan gynnwys y rheini ar gyfer y Cyfnod

Sylfaen, yn helaeth ac yn cynnwys adnoddau da. Cynigir amrywiaeth dda o adnoddau sy'n cyfateb yn dda i anghenion disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi dysgu a lles disgyblion yn gadarn wrth graidd popeth a wnânt. Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cyfleu nodau, amcanion a gwerthoedd yr ysgol yn effeithiol i bawb â diddordeb. Caiff y pennaeth gymorth effeithiol gan yr uwch dîm rheoli sydd newydd ei ffurfio. Maent yn dadansoddi ac yn dehongli data'n dda, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i nodi cryfderau a gwendidau'r ysgol yn glir, ac i osod targedau ar gyfer gwella. Mae arweinwyr pwnc yn cyflawni'u rôl yn dda. Gweithia pob aelod o staff yn llwyddiannus â'i gilydd i gyflawni polisïau'r ysgol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnig her briodol i bawb. Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad ac i gefnogi aelodau staff newydd. Fodd bynnag, nid oes dull cadarn o werthuso ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rolau a'i gyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae'n wybodus iawn ynglŷn â darpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Mae'r aelodau yn cyflawni'u cyfrifoldebau statudol yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at redeg a datblygu'r ysgol.

Cyflwynwyd polisïau a mentrau effeithiol gan yr ysgol i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel gwella safonau siarad a gwrando a darllen disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau a gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr. Mae'r rhain yn galluogi pawb ddeall cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu yn glir. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i flaenoriaethu ac i gynllunio gwelliannau.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae camau gweithredu yn cynnwys graddfeydd amser addas a dyrennir adnoddau ar eu cyfer. Caiff hyfforddiant staff ei gynllunio'n effeithiol ac mae'n cysylltu'n glir â thargedau'r ysgol. At ei gilydd, mae hanes da o lwyddo gan yr ysgol o ran sicrhau gwelliant. Er bod arweinwyr yn monitro gweithrediad y cynllun bob tymor, nid ydynt bob amser yn gwirio'n ddigon cyson pa mor dda y mae staff wedi cyflwyno mentrau penodol yn eu hystafelloedd dosbarth.

Trwy fod yn gysylltiedig â rhwydweithiau athrawon mewn ysgolion eraill, gwelwyd gwelliannau yn ansawdd cynllunio ymchwiliadau gwyddoniaeth gan athrawon.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod o bartneriaethau effeithiol gan yr ysgol sy'n effeithio'n dda ar ddarpariaeth a safonau. Mae cysylltiadau cadarn ag Eglwys Chwitffordd yn cefnogi datblygiad

ysbrydol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cyfathrebu ac yn cysylltu'n dda iawn â rhieni. Mae'r Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion yn codi cyllid ychwanegol i'r ysgol yn rheolaidd. Defnyddiwyd hwn yn effeithiol i wella adnoddau TGCh, ac mae hynny wedi helpu codi cyflawniadau disgyblion yn y pwnc hwn.

Yn ogystal â lleihau costau ynni'r ysgol, mae cyfranogiad disgyblion yn y prosiect ailgoedwigo yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt i ehangu'u gwybodaeth o gynaliadwyedd. Mae cysylltiadau addas ag ysgolion uwchradd a'r clwstwr o ysgolion cynradd. Mae'r ysgol yn rhannu prosiectau celf ar y cyd â nhw, a chynhelir perfformiadau yn y theatr leol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella safonau datblygiad creadigol disgyblion. Hefyd, mae cysylltiadau pontio da â'r ysgol uwchradd y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo iddi ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o athrawon cymwys a staff cymorth gan yr ysgol i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion, ac mae'n eu defnyddio'n effeithiol. Mae llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn fanwl. Mae ganddynt gynlluniau priodol i ddefnyddio gwarged presennol yr ysgol i leihau maint dosbarthiadau ac i gynyddu lefel y cymorth i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu.

Mae newidiadau i ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen wedi helpu o ran gwella safonau ac i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o'r gofod sydd ar gael.

O ystyried y cynnydd cadarn y mae'r disgyblion wedi'i wneud, a'r ddarpariaeth ac arweinyddiaeth effeithiol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion, mae'n rhaid ymdrin yn ofalus â chanlyniadau asesiadau disgyblion gan y gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion yn yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg (h.y. ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim) ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol, ac yn y 50% uchaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Roeddent yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer datblygiad mathemategol. Roeddent yn y 50% isaf ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant 5 disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol ar y cyd). Ar gyfer y deilliant 6 uwch, roedd yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer pob maes.

Ar gyfer y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol tua'r canol yn ei theulu o ysgolion, ac eithrio ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol lle'r oedd yn y safle cyntaf. Ar gyfer y deilliant 6 disgwyliedig, mae canlyniadau yn hanner isaf y teulu yn gyson.

Yn 2012, roedd deilliannau disgyblion ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 ychydig yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd, ond yn y 50% isaf o ysgolion ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Ar gyfer y lefel 5, roedd deilliannau disgyblion yn y 25% uchaf ar gyfer gwyddoniaeth, ac yn y 50% uchaf ar gyfer mathemateg a Saesneg.

Roedd canlyniadau ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig, hyd 2012, tua'r canol yn y teulu. Yn y ddwy flynedd flaenorol cyflawnodd yr ysgol ddeilliannau cyson uwch na'r ysgolion yn y teulu. Ar lefel 5, mae canlyniadau'r ysgol yn codi, ac maent ychydig uwchlaw cyfartaledd y teulu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Ymatebodd 31 o rieni neu ofalwyr i'r holiadur.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol ac o'r farn:

- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu yn dda;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn cael cymorth ychwanegol priodol os oes angen;
- bod yr ysgol yn helpu'u plentyn i fod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb;
- bod yr ysgol yn helpu plant i ymgartrefu'n dda; a
- bod ystod amrywiaeth dda o deithiau neu ymweliadau.

Nid yw ychydig o rieni neu ofalwyr o'r farn:

- eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn
- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd; neu
- fod staff yn trin pob disgybl yn gyfartal a gyda pharch.

Yn y rhan fwyaf o achosion, heblaw am y rhai'n ymwneud ag ymddygiad a pharch lle maent ychydig yn fwy negyddol, mae ymatebion y rhieni fwy neu lai'n debyg i ymatebion ysgolion cynradd eraill ledled Cymru.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd pedwar deg wyth o ddisgyblion i'r holiadur.

Cred y rhan fwyaf o ddisgyblion:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i fod yn iach;
- eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni;
- bod yr athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod pwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod digon o lyfrau ac offer ar gael iddynt wneud eu gwaith; a
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser egwyl a chinio.

Roedd ychydig o ddisgyblion yn pryderu nad oeddent yn cael digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff.

Mae barnau'r disgyblion yn debyg i farnau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgolion eraill Cymru ac eithrio mewn perthynas â chyfleoedd i wneud ymarfer corff, lle mae eu barnau ychydig yn fwy negyddol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Richard Hawkley | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Evans | Arolygydd Tîm |
| James Jones | Arolygydd Lleyg |
| Susan Palmer | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kath Royles | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.